TALFEN CIPOLWG YFED DOETH CYMRU

YR UN HEN NEGESEUON?

Mae'r daflen hon yn dangos sut mae'r dadleuon y bu'r diwydiant tybaco a lobïwyr ysmygu yn eu defnyddio, er mwyn rhwystro neu ohirio rheoleiddio tynnach, wedi cael eu mabwysiadu gan y diwydiant alcohol i amddiffyn ei fuddiannau ei hunan. Dyma ddetholiad o ddyfyniadau, ynghyd â'r gwrthddadleuon gan academwyr ac arbenigwyr iechyd.

Marchnata i blant a phobl ifanc

"Yn ystod yr holl flynyddoedd rwyf wedi'u treulio gyda Philip Morris, nid wyf erioed wedi clywed neb yn siarad am farchnata i bobl ifanc."

Geoffrey Bible, Prif Swyddog Gweithredol cwmni tybaco Philip Morris (1998)

"Mae'n rhaid i ni chwalu'r chwedl hon unwaith ac am byth fod gweld marchnata alcohol yn achosi i blant yfed. Mae gan y Deyrnas Unedig rai o'r rheolau llymaf eisoes i atal marchnata alcohol i blant neu mewn ffordd a allai apelio iddyn nhw."

David Poley, Prif Weithredwr Grŵp Portman (2011)

"Mae pobl ifanc yn darged allweddol i'r hysbysebwyr alcohol. Caiff data ymchwil i'r farchnad ar bobl ifanc 15 a 16 oed eu defnyddio i lywio'r ffordd y caiff ymgyrchoedd eu datblygu a'u defnyddio, ac mae cydnabyddiaeth eglur fod diodydd penodol yn apelio i blant. Cyfeirir at Lambrini, er enghraifft, fel 'diod i blant'... Ar gyfer brandiau eraill, y nod yw creu diddordeb a meithrin teyrngarwch pobl ifanc er mwyn cadw cwsmeriaid wrth iddyn nhw aeddfedu."

Yr Athro Gerard Hastings (2010)

Hysbysebu a newid brandiau

"Perswadio ysmygwyr cynnyrch ein cystadleuwyr i newid i un o'n brandiau ni, a meithrin teyrngarwch y rhai sydd eisoes yn ysmygu un o'n brandiau ni, yw diben [hysbysebu]"

R. J. Reynolds Tobacco (1984)

"Er mwyn dylanwadu ar ddewis brandiau cwsmeriaid, dyna'r rheswm y mae cynhyrchwyr diodydd yn hysbysebu."

Grŵp Portman (2008)

"Mae hyrwyddo alcohol...yn dylanwadu ar normau cymdeithasol, ac mae tystiolaeth sylweddol fod y rhain yn eu tro yn dylanwadu ar berthynas pobl ifanc ag alcohol. Po fwyaf cyffredin a derbyniol yw yfed ym marn pobl ifanc, yn y gymdeithas ac ymysg eu cyfoedion, y mwyaf tebygol fydd hi iddynt fod yn yfwyr, a'r mwyaf fydd y symiau alcohol y byddant yn debygol o'u hyfed."

Cymdeithas Feddygol Prydain (2009)

Codi'r pris

"[Mae codi pris sigaréts] yn gwahaniaethu yn erbyn y rhai sy'n gallu ei fforddio leiaf. Byddai codi'r dreth ar dybaco yn costio biliynau o bunnoedd i'r llywodraeth...Dywedodd y Canghellor y byddai polisi'r llywodraeth ar dybaco'n lleihau ysmygu. Nid rôl y llywodraeth yw gorfodi pobl i roi'r gorau i ysmygu."

Simon Clark, Cyfarwyddwr Forest, grŵp lobïo dros ysmygwyr (2011)

"Mae'n destun pryder fod y Llywodraeth, yng nghanol dirwasgiad, pan fydd gwerthiant ac yfed alcohol ar drai, yn sôn am godi prisiau i bob cwsmer, ar adeg pan fydd llawer eisoes yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd."

Jeremy Beadles, Prif Weithredwr Cymdeithas Masnachu Gwin a Gwirodydd (2009)

"Mae dwsinau o astudiaethau a wnaed yn y gwledydd datblygedig a datblygol wedi dangos bod prisiau alcohol yn cael effaith ar faint o alcohol sy'n cael ei yfed a'r problemau cysylltiedig, gan gynnwys cyfraddau marwolaethau, troseddu a damweiniau traffig. Mae yfwyr diodydd alcoholig yn ymateb i newidiadau ym mhrisiau alcohol, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hyn yn wir am bob carfan o yfwyr..."

Yr Athro Thomas Babor et al.

TALFEN CIPOLWG YFED DOETH CYMRU

YR UN HEN NEGESEUON?

Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gyhoeddus ac addysg wedi'u hariannu gan y diwydiant

"Heddiw cyhoeddodd Cwmni Tybaco Lorillard fod rhaglen atal pobl ifanc rhag ysmygu wedi'i lansio ledled Prydain. Mae hyn...yn ychwanegol at yr arian y mae Lorillard a chwmnïau eraill wedi'u hymrwymo i'r... rhaglen addysgu ac atal pobl ifanc rhag ysmygu."

Datganiad i'r Wasg gan Gwmni Tybaco Lorillard (1999)

"Drwy addysg yn unig, ar y cyd ag ymyriadau wedi'u targedu yn erbyn camddefnyddwyr, y gallwn ni newid y diwylliant yfed yn y pen draw..." **David Poley,** Prif Weithredwr Grŵp Portman (2010)

"Gall ymgyrchoedd addysgu sydd wedi'u hariannu gan y diwydiant alcohol gael effaith hollol groes, yn yr ystyr eu bod yn peri i'r bobl sy'n eu gweld fagu agwedd lawer mwy ffafriol at y diwydiant alcohol nag oedd ganddynt o'r blaen... Os rhywbeth, gall y fath ymgyrchoedd sydd wedi'u hariannu gan y diwydiant gael effaith negyddol...Ym maes ysmygu bu llawer mwy o ymchwil i hyn ac mae'n amlwg iawn fod ymgyrchoedd addysgu wedi'u hariannu gan y diwydiant tybaco'n gwneud i'r gwrthwyneb ddigwydd; [maen nhw'n] arwain at ragor o ysmygu ac yn sicr maen nhw'n arwain at farn lawer mwy ffafriol am y diwydiant tybaco."

Dr. Peter Anderson (2009)

TAFLENNI ERAILL YN Y GYFRES:

- **Helpwch eich hunan – y ffeithiau am yfed gartref**
- **Beth sy'n wir? Chwalu'r chwedlau am yfed**
- **Er lles pwy? Y negeseuon mae'r diwydiant diodydd am i chi eu clywed**

Cafodd y daflen hon ei pharatoi gan Alcohol Concern Cymru.
I gael mwy o ffeithiau am alcohol ewch i **www.yfeddoethcymru.org.uk**